# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Llechyfedach**

**The Portacabin**
**Singleton Road**
**Upper Tumble**
**Llanelli**
**SA14 6DS**



## Dyddiad cyhoeddi

**22 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Llechyfedach wedi ei gofrestru i ddarparu gofal i hyd at 21 o blant o ddwy i bedair oed. Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli mewn caban ar gyrion pentref y Tymbl wrth ymyl cae chwarae. Mae'r gwasanaeth ar agor o 9:00 – 12:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor ysgol yn unig. Y personau cofrestredig yw Diane Campbell a Helen Singer, gyda Diane Campbell yn cydweithio gyda Cheryl Evans fel personau â gofal.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cynnig gweithredol yr Iaith Gymraeg gan nodi a diwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol y plant sy'n mynychu.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Llechyfedach yn hapus, dedwydd ac yn mwynhau eu hamser yno a'r gweithgareddau amrywiol a drefnir ar eu cyfer. Mae'r staff brwdfrydig yn ymateb i ofynion y plant ac yn meithrin perthynas hyfryd rhyngddynt. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o ystafelloedd addas gydag ardal tu allan a chae chwarae sy'n hygyrch i'r plant. Mae'r arweinyddiaeth yn foddhaol ac yn ysgogi staff i roi o'u gorau. Mae angen gwneud newidiadau yn y dulliau rheoli er mwyn diwallu safonau gofynnol. Mae'n gylch cartrefol a chroesawgar sy'n hwyluso'r profiad o ddechrau'r ysgol.

### 2. Gwelliannau

Yn dilyn diffyg cydymffurfiaeth yn yr arolwg diwethaf, mae'r person â gofal wedi sicrhau bod bron pob aelod o staff yn meddu ar dystysgrif cyfredol gyda'r Gwasanaeth datgelu a Gwahardd (GDG). Yn ystod ein hymweliad cysylltodd y person â gofal ag Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) er mwyn cychwyn y broses o ddiweddaru'r dystysgrif oedd wedi terfynu.
Mae'r Datganiad o Ddiben wedi ei ddiwygio ond mae angen cynnwys mwy o wybodaeth am y gwasanaeth a gynigir, y cyfleusterau a threfn y sesiwn.
Mae adroddiad o'r adolygiad ansawdd gofal wedi ei anfon i AGC.
Gwelsom dystysgrif yswiriant gyfredol.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn diwallu gofynion deddfwriaeth ond nad oedd y materion hyn yn effeithio ar les plant. Tynnwyd sylw'r person â gofal atynt a'i hargymell i fynd i'r afael â hwy yn ddiymdroi. Mae'r materion hyn yn ymwneud â sicrhau bod staff wedi derbyn gwiriad gan y GDG, bod staff yn cael eu goruchwylio a'u gwerthuso'n rheolaidd a bod dogfennaeth lawn am staff ar gael.
Hefyd gwnaethpwyd argymhellion i sicrhau bod staff yn mynychu cyrsiau i ddiweddaru eu gwybodaeth, sicrhau bod datganiad o ddiben cyfredol ar gael, darparu cofnodion o

ddatblygiad plant ar gyfer rhieni ac ymlynu wrth ganllawiau rheoli heintiau wrth weini bwyd.

# 1. Lles

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, hyderus a chysurus ac yn gwir fwynhau eu hamser. Maent yn teimlo'n gartrefol yn eu cynefin a mae hyn yn hybu eu datblygiad a meithrin eu hunan hyder. Mae'r plant wedi datblygu perthynas gynnes gyda'r staff a diwëllir anghenion unigol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae plant yn derbyn cyfleoedd i fynegi beth hoffent ei wneud a gwrandewir arnynt.

Roedd y plant yn elwa o gael dewis o amrywiaeth eang o weithgareddau oedd wedi eu gosod allan yn barod ar eu cyfer. Gwelsom blant yn cael rhyddid i ddewis eu gweithgarwch a newid yn ôl eu dymuniad eu hunain a thrwy hyn roedd lleisiau unigol yn cael gwrandawiad. Roedd y plant yn gallu dewis o blith gweithgareddau megis lego, jigsos a llu o deganau eraill oedd yn hygyrch iddynt. Roedd y plant i gyd yn brysur yn ystod cyfnodau o chwarae rhydd. Clywsom blant yn mynegi eu hoffter o ganeuon amser canu a chyfle i bawb ddewis cân yn eu tro. Yn ystod gweithgaredd ffocws roedd plant yn cael dewis i fod ar y bwrdd melyn neu'r bwrdd du ac ar ôl gorffen y dasg roeddynt yn dewis llyfr i edrych ar y lluniau. Rhoddwyd gwrandawiad i lais pob plentyn a thrwy anogaeth roeddynt yn meithrin hyder i gyfathrebu yn Gymraeg a hefyd pan oedd angen roedd cyfle i blant gyfathrebu yn eu mamiaith.

Mae'r plant yn profi cyfleoedd amrywiol i'w galluogi i fynegi eu hunain, ac yn derbyn gofal gan staff sydd yn mynegi diddordeb ac yn gwrando ar eu hymatebion.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a hapus gyda'r staff a gwelwyd eu bod ar y cyfan yn hyderus am eu bod yn adnabod y gwasanaeth yn dda.

Roedd perthynas glòs yn bodoli rhwng y plant a'r staff, oedd yn eu galluogi i ymdopi gydag absenoldeb eu rhieni. Gwelsom bod un o'r plant yn dueddol o gynhyrfu ar adegau ond roedd sylw a chwtsh ar gael bob amser. Roedd y plant yn derbyn croeso cynnes a chartrefol wrth gyrraedd oedd yn eu hwyluso i ymgysylltu â'r gweithgareddau yn syth. Roedd y plant yn ymwybodol o drefn y sesiwn ac yn gwybod pryd i dacluso a golchi dwylo. Roedd rhai o'r plant yn ddigon hyderus i siarad gyda'r arolygwyr gan ofyn am stori a dangos jigso heriol yr oeddynt wedi ei gyflawni. Roedd y plant yn sgwrsio gyda'r staff am eu teuluoedd a'u diddordebau. Roedd y cyfeillgarwch a'r agosatrwydd hyn yn rhoi synnwyr o berthyn i'r plant a'u hannog i feithrin perthynas a chyfeillgarwch gyda'i gilydd. Dangosir gwerthfawrogiad o'r plant yn y gwasanaeth hyn drwy arddangos gwaith naturiol y plant sy'n ddathliad o'u llwyddiannau.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a hapus yng ngofal y staff ac yn cael eu trin yn addfwyn a boneddigaidd.

### 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad, cydweithio a chymryd eu tro, a meithrin perthynas ag eraill yn llwyddiannus.

Roedd y plant yn elwa o'r pwyslais amlwg ar ganmoliaeth gyson sy'n bodoli yn y gwasanaeth. Gwelsom blant yn rhannu adnoddau ac yn cymryd tro wrth chwarae. Roedd hyn yn cael ei annog a'i gefnogi gan staff oedd yn canmol eu hymdrechion. Gwelsom y plant yn cyfarch eu ffrindiau wrth gyrraedd ac yn brawf eu bod yn llwyddo i ryngweithio gyda'u cyfoedion. Hefyd gwelsom rai o'r plant yn cysuro plentyn wedi cynhyrfu, ac yn arddangos caredigrwydd tuag atynt. Roedd amser byrbryd yn amser cymdeithasol gydag aelod o staff yn annog plant i sgwrsio o gwmpas y bwrdd. Roedd cyfleoedd digonol iddynt feithrin perthynas gyda'u cyfoedion gan fwynhau chwarae a siarad gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn dangos ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau i gydweithio a rhannu.

### 1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd ysgogol i chwarae a dysgu. Maent yn cymreryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a ddewiswyd ganddynt.

Gwelsom bod y plant i gyd yn mwynhau eu chwarae ac yn weithgar a'u bod yn chwilfrydig wrth ddysgu ac ymateb i brocio'r staff. Cynhaliwyd amser cylch a chlywsom y plant yn ymateb yn frwdfrydig wrth gyfrif, sgwrsio am y tywydd a dyddiau'r wythnos a hefyd lliwiau'r wythnos. Roedd y plant yn ymwybodol o'r drefn, a roedd esboniad am y dasg ffocws yn gymorth iddynt cyn bwrw ati gyda'r gwaith. Roeddynt yn mwynhau'r gweithgareddau stori a chanu yn enwedig ar ôl canu cân o'u dewis. Pan oeddynt yn canu cân y cloc roedd pawb yn tawelu i wrando ar sŵn y cloc ac yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr amser pan fo'r ddau fys ar ddeuddeg, sef amser mynd adre.Hefyd roedd y plant yn mwynhau chwarae rôl yn enwedig pan oedd y staff yn ymuno yn y chwarae ond heb gymryd drosodd. Roedd plant yn derbyn anogaeth i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd wrth ymgysylltu gyda'r amrywiaeth o weithgareddau.

Mae'r plant yn derbyn cydbwysedd da o weithgareddau strwythuredig a chwarae rhydd, sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau syml ac i ddysgu a datblygu drwy chwarae.

### 1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae plant yn derbyn cyfleoedd ysgogol i ddysgu a dod yn annibynnol.

Roedd y plant yn derbyn cyfleoedd cyson i ddatblygu a meithrin eu hannibyniaeth mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Gwelsom blant yn estyn eu cadeiriau eu hunain mewn parodrwydd ar gyfer amser cylch ac yna yn eu dychwelyd cyn ymgysylltu â gweithgaredd. Roedd cymorth ar gael i'r rhai oedd angen. Hefyd roedd y plant yn golchi eu dwylo'n annibynnol cyn amser byrbryd a'r rhai oedd yn medru yn defnyddio'r toiled heb unrhyw gymorth. Roedd sgiliau hunan gymorth y plant yn cael eu hymestyn ymhellach amser byrbryd wrth iddynt gael cyfle i helpu eu hunain i fwy o dôst a thywallt fwy o ddiod eu hunain yn y caffi oedd wedi ei osod yn barod iddynt. Roedd y plant yn derbyn anogaeth i estyn eu cotiau a'u bagiau ar ddiwedd y sesiwn, a gwisgo'u cotiau'n annibynnol ond yn derbyn cymorth os oedd angen. Gwelsom nifer o blant yn helpu i dacluso oedd yn rhoi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau iddynt.

Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd da i ddysgu a datblygu sgiliau huangymorth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae’r staff yn cadw plant yn ddiogel ac yn ofalgar tuag atynt gan lwyddo i feithrin perthynas gynnes a hwyliog gyda hwy. Hyrwyddir datblygiad plant a mae’r staff yn dangos dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau allweddol ac yn gwybod pryd a ble i gael cymorth.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae’r ymarferwyr yn cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae staff yn gweithredu nifer o weithdrefnau yn effeithiol i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac iach.

Gwelsom bod y staff yn cadw at weithdrefnau i sicrhau diogelwch y plant. Drwy sgwrs, dywedodd staff wrthym eu bod yn gyfarwydd â’r polisi diogelu plant ac yn gwybod pa gamau i’w cymryd a gyda phwy i gysylltu pan gyfyd pryderon. Fodd bynnag gwelsom nad oedd tystysgrif gyfredol gan ddau aelod o’r staff. Dywedwyd wrthym eu bod yn aros am gwrs addas i ddiweddaru eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o faterion diogelu plant. Gofynnir i ymwelwyr â’r gwasanaeth i arwyddo llyfr a chedwir cofnod dyddiol o bresenoldeb plant a staff, a chofnodir pan fo’r plant yn mynd adre. Roedd y drws allanol yn cael ei gloi pan roedd y plant yn defnyddio’r cyntedd fel gofod ar gyfer gweithgareddau a chedwir y drws i’r brif ystafell chwarae ar glo bob amser. Gwelwyd bod asesiadau risg mewn lle a’r camau gweithredu yn cael eu cyflawni yn eu harferion bob dydd. Gwelsom gofnodion o ymarferion tân rheolaidd bob mis. Hefyd cofnodir damweiniau a’r camau gweithredu dilynol yn fanwl a nodwyd bod rhieni wedi arwyddo’r llyfr. Mae’r staff hefyd yn hyrwyddo iechyd plant drwy sicrhau bod byrddau yn cael eu diheintio cyn amser byrbryd a hefyd bod plant yn golchi eu dwylo ar adegau priodol. Roedd plant yn derbyn byrbryd iach o ffrwythau amrywiol, tôst brown a diod o laeth neu ddŵr. Fodd bynnag gwelsom nad oedd y staff yn defnyddio gefel na menig wrth ddosbarthu’r bwyd.

Ar y cyfan, mae’r staff yn llwyddo i gadw’r plant yn ddiogel ac iach, ac yn gyfarwydd â’r polisïau a weithredir.

### 2.2 Pa mor dda mae’r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae’r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn gyson ac yn gosod esiampl o ymddygiad derbyniol yn barhaus.

Roedd y staff wedi meithrin perthynas gynnes gyda’r plant i greu awyrgylch gartrefol yn y gwasanaeth, gan weithio’n unol â’r polisi rheoli ymddygiad. Roedd y staff yn rhoi sylw i’r plant drwy’r adeg ac yn annog ymddygiad derbyniol drwy atgoffa plant i rannu a sgwrsio gyda hwy am bethau cyfarwydd mewn llais addfwyn a rhoi canmoliaeth

gyson. Clywsom y staff yn annog y plant i ryngweithio a meithrin perthynas, cymryd tro a rhannu gan fodelu iaith gwrtais bob amser, a hyfryd oedd clywed sgwrs y plant wrth chwarae gyda'i gilydd. Roedd y staff yn gwybod sut i fodelu ymddygiad cadarnhaol gyda'r plant a gwelsom hwy yn dynwared yr ymddygiad hwn ac yn creu awyrgylch gartrefol a chynnes.

Mae'r staff wedi llwyddo i osod terfynau ymddygiad ac yn arwain y plant drwy esiampl at ymddygiad sy'n dderbyniol.

**2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?**

Mae'r staff yn darparu amgylchedd ysgogol lle gall pob plentyn ddatblygu ar eu cyflymder unigol.

Gwelsom staff yn annog datblygiad iaith y plant drwy roi sylw parhaus iddynt a'u hannog i sgwrsio. Roedd y staff yn gwneud defnydd cadarn o'r iaith Gymraeg sc yn ailadrodd geiriau ac ymadroddion er mwyn datblygu sgiliau iaith y plant. Gwelsom gydbwysedd da o weithgareddau anffurfiol a strwythuredig oedd yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen. Roedd y plant wedi ymgysylltu â'r gweithgareddau hyn ac yn brysur drwy gydol y sesiwn. Gwelsom y staff yn annog plant i ddyfalbarhau er mwyn cyflawni tasg eu hunain, gan gynnig cymorth os oedd angen er enghraifft wrth hongian eu bagiau a chotiau eu hunain. Nid oedd cofnodion o ddatblygiad plant ar gael, a thrafodwyd gyda'r person â gofal nad oedd hyn yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol(6.8) sy'n nodi y dylai cofnodion ar gynnydd plant fod ar gael i rieni. Gwelsom dystiolaeth bod gweithgareddau addas yn cael eu cynllunio er lles a datblygiad plant.

Mae'r staff yn llwyddo i gynllunio ystod o weithgareddau i hyrwyddo datblygiad y plant a chyfoethogi eu profiadau gan ymateb i anghenion uniglion.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae’r cylch yn cael ei gynnal mewn ystafelloedd addas. Roedd safonau da o lanweithdra a diogelwch yn cael eu hymarfer. Mae’r adnoddau a’r dodrefn o ansawdd boddhaol ac yn adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen. Mae’r ardal tu allan yn addas i blant chwarae yn yr awyr iach o dan oruchwyliaeth.

### Ein canfyddiadau

**3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?**

Mae gweithdrefnau mewn lle i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd sy’n ddiogel a glân.

Roedd mesurau diogelwch digonol ar waith i sicrhau diogelwch plant. Roedd y staff yn ymwybodol o’r peryglon wrth i blant estyn amrywiaeth o deganau ac anogir y plant i dacluso a chadw cyfarpar o fewn yr ardaloedd perthnasol i hwyluso diogelwch ar gyfnodau rheolaidd. Gwelsom bod asesiadau risg manwl mewn lle a’u bod yn cael eu diweddaru’n flynyddol er nad oes cofnod o hyn. Roedd giat ddiogelwch wrth y mynediad i’r gegin i sicrhau nad oedd mynediad i blant. Gwelwyd y ffens symudol a ddefnyddir i gorlannu rhan o’r maes parcio ar gyfer lle chwarae i’r plant. Hefyd roedd plant yn cael defnyddio’r cae chwarae wrth ymyl pan oedd y person â gofal yn sicr eu bod yn gallu dilyn cyfarwyddiadau diogelwch.

Mae’r arweinwyr yn ystyried ac asesu unrhyw risgiau sy’n codi’n barhaus er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i blant.

**3.2 Pa mor dda mae’r aweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?**

Mae’r arweinwyr yn darparu amgylchedd safonol ar gyfer plant. Mae yma ofod ac adnoddau digonol sy’n diwallu anghenion unigolion.

Roedd yr ystafell chwarae yn lliwgar a chroesawgar gydag arddangosfa o waith y plant sy’n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Roedd yr ystafell wedi ei rhannu i ardaloedd profiad lle gall plant chwarae a dysgu ac arbrofi yn unol ag ethos y Cyfnod Sylfaen,megis ardal y cartref, ardal adeiladu ac ardal ddarllen. Roedd yr adnoddau yn hygyrch i blant gyda digon o fyrddau i gwblhau gwaith crefft a phosau rhifedd. Roedd y dodrefn yn addas i oed y plant. Hefyd roedd y cyfleusterau yn gyfleus i’r plant ac yn hwyluso eu defnydd annibynnol ohonynt.

Mae’r arweinwyr wedi llwyddo i ddarparu amgylchedd groesawgar a hwyliog sy’n rhoi cymhelliant i’r plant yn eu datblygiad

## 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r ystafelloedd er budd y plant. Maent yn darparu adnoddau a dodrefn safonol sy'n addas i oed y plant.

Gwelsom bod y dodrefn yn yr ystafelloedd yn safonol ac yn addas i'r plant. Roedd y gwasanaeth yn darparu ystod o adnoddau oedd yn lân ac mewn cyflwr addas, ac yn eu gwirio yn ddyddiol wrth osod yr ystafell. Roeddynt yn symbylu a hwyluso datblygiad y plant. Roedd gofod digonol yn yr ardaloedd profiad i sicrhau fod plant yn medru chwarae'n rhydd a rhoi cyfle iddynt ddysgu a darganfod. Gwelsom bod peth sylw wedi ei roi i ddarparu adnoddau o ddeunyddiau cynaliadwy a bod y staff yn paratoi adnoddau a lluniau ar gyfer y waliau eu hunain.

Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i gasglu storfa eang o adnoddau i annog mwynhad a datblygiad y plant, a'u bod o ansawdd safonol.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinyddiaeth yn frwdfrydig gyda gweledigaeth glir, fodd bynnag, nid yw'r rheolaeth bob amser yn effeithiol a mae angen newidiadau i sicrhau bod rheoliadau wedi eu cyflawni. Gweithredir rhai camau ar gyfer hunan-arfarnu er nad yw'r staff yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Nid yw'r rheolaeth o'r staff bob amser yh effeithiol sy'n golygu bod rhai gwiriadau heb eu cyflawni. Mae partneriaeth effeithiol wedi ei datblygu gyda'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r person â gofal yn rhoi arweinyddiaeth effeithiol i'r gwasanaeth gan sirhau bod mwyafrif o'r dogfennau yn eu lle.

Gwelsom bod y ffeil polisïau a gweithdrefnau yn gyflawn a bod y staff yn wybyddus o'r polisïau a'r gweithdrefnau a gwelsom hwy yn eu hymgorffori'n briodol yn eu harferion dyddiol. Gwelsom enghreifftiau o ffeiliau'r plant a chael eu bod yn gynhwysfawr, yn gyfredol a'r ffurflenni oedd angen eu harwyddo wedi gwneud. Mae'r person â gofal wedi sicrhau i raddau bod aelodau staff yn mynychu cyrsiau yn rheolaidd er mwyn sicrhau safon uchel o ofal. Nid oedd datganiad o ddiben cyfredol ar gael ar y diwrnod ond anfonwyd copi at yr arolygydd yn dilyn yr arolwg. Gwelsom bod y mwyafrif o'r wybodaeth angenrheidiol wedi ei gynnwys er bod angen rhoi mwy o sylw i fanylion am y ddarpariaeth a'r cyfleusterau a threfn y sesiynau.

Ar y cyfan, mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol ac yn cefnogi'r gwasanaeth i ddarparu gofal safonol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod rhai gweithdrefnau yn cael eu gweithredu er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a chynllunio i wella pan fod angen.

Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei arfarnu'n rheolaidd a gwelsom y manylion a gyflwynwyd yn yr adroddiad ansawdd gofal. Roedd strwythurau yn eu lle i hunan arfarnu a gosod targedau i wella. Cesglir barn rhieni am y gwasanaeth mewn holiaduron a gwelwyd eu bod yn ganmoladwy. Gofynnir barn y plant am y gwasanaeth hefyd ond nid oedd cofnod o'u hymatebion. Ni welsom dystiolaeth bod staff wedi eu harfarnu o fewn y deuddeng mis diwethaf a hysbyswyd y person â gofal nad oedd yn cydymffurfio gyda Rheoliad 29 (3)(a) sef cynnal goruchwyliaeth briodol o staff. Ni roddwyd rhybudd o ddiffyg cydymffurfiaeth am nad oedd tystiolaeth bod hyn yn effeithio ar les y plant. Mae angen i'r person â gofal fynd i'r afael â'r mater hwn, a lluniio strategaeth i fonitro staff yn eu harferion dyddiol.

Mae’r arweinwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd arfarnu er mwyn datblygu i’r dyfodol, ac yn gweithredu rhai strwythurau hunan-arfarnu.

## 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae’r person â gofal yn arwain tîm o staff sydd yn hapus yn eu gwaith ac sy’n glir ynglŷn â’u dyletswyddau.

Gwelsom bod y staff yn cydweithio’n effeithiol ac yn cefnogi ei gilydd bob amser. Roedd y gwaith tîm a welsom yn hynod effeithiol ac yn sicrhau bod y gofal a’r addysgu yn ddi-dor. Roedd dyletswyddau wedi eu rhannu a phob aelod o staff yn gwbl gyfarwydd â’u dyletswyddau ac yn eu cyflawni mewn ffordd effeithiol. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) y person â gofal yn gyfredol yn unol â Rheoliad 20 (4) (a). Cysylltodd y person â gofal ag AGC yn ystod ein hymweliad i ddechrau’r broses o ddiweddaru ei thystysgrif, ac ni roddwyd rhybudd o ddiffyg cydymffurfiaeth. Gwelwyd bod bylchau yn y ffeiliau staff a hysbyswyd y person â gofal nad oedd yn cydymffurfio gyda Rheoliad 28 (2)(b)(ii) trwy sicrhau bod aelod staff wedi darparu dau dystlythyr dilys. Ni roddwyd rhybudd o ddiffyg cydymffurfiaeth am nad oedd tystiolaeth bod hyn yn effeithio ar les y plant. Rhaid i’r person â gofal fynd i’r afael â’r mater hwn.

Mae’r staff yn rhoi o’u gorau er lles y plant ac ar y cyfan mae’r rheolaeth yn ddigonol.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae perthynas effeithiol yn bodoli rhwng y gwasanaeth a’r rhieni, gyda llwybrau cyfathrebu cyson a chydweithio er mwyn sicrhau lles y plant.

Cawsom gyfle i siarad gyda rhai o’r rhieni a roeddynt yn canmol y gofal a’r staff yn fawr iawn. Soniodd rhieni am ymrwymiad y staff i sicrhau bod plant yn teimlo’n gartrefol a diogel a hefyd ei bod yn hawdd mynd atynt i drafod unrhyw fater sy’n codi a bod cyfle i wneud hynny yn ddyddiol. Soniwyd hefyd am yr anogaeth mae plant yn ei dderbyn a’r effaith cadarnhaol ar eu datblygiad cymdeithasol a ieithyddol.

Mae’r berthynas glòs hon yn galluogi’r staff i wneud y penderfyniadau gorau ynghylch gofal a datblygiad y plant, a hefyd yn rhoi diweddariad i’r rhieni ynghylch datblygiadau eu plant eu hunain.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

- Rheoliad 28 (2) (b) (ii) - bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r person hwnnw. Mae'r diffyg cydymffurfio yn parhau.
- Rheoliad 6 (3) (b) (i) Atodiad 1 Adran 2:19 – nad oedd tystysgrif GDG cyfredol gan un o'r personau cofrestredig. Mae'r arweinwyr nawr yn cydymffurfio.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau canlynol:

- Rheoliad 29 (3)(a) Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 - sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi, goruchwylio a'u gwerthuso'n briodol,
- Rheoliad 20 (4) (a) Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 - sicrhau bod tystysgrif GDG wedi ei dyroddi i bob aelod o staff a
- Rheoliad 28 (2)(b)(ii) Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 - sicrhau bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r staff

Ni roddwyd rhybudd o ddiffyg cydymffurfiaeth ar yr achlysur hwn, am nad oedd y materion hyn yn effeithio ar les plant. Rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn.

Hefyd gwnaethom yr argymhellion canlynol:

- Sicrhau bod staff wedi diweddaru eu gwybodaeth ar gyrsiau hanfodol mewn da bryd,
- Sirhau bod copi o'r datganiad o ddiben ar gael bob amser,
- Cofnodi datblygiad plant i ddarparu gwybodaeth i reini ac
- Ymlynu at ganllawiau rheoli heintiau wrth weini bwyd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn ymweliad dirybudd. Cynhaliwyd yr arolygiad ar ddydd Llun 22 Hydref 2018 o 8:45 – 14:00. Roedd hyn yn cynnwys cyfnod ar y diwedd i sgwrsio ymhellach gyda'r person â gofal.
Hefyd:

- Adolygwyd gwybodaeth a oedd eisoes gan AGC – sef adroddiad o'r arolwg blaenorol, adroddiad arolwg ansawdd gofal ac ymatebion i'r hunan asesiad;
- siaradom gyda'r plant a'r rhieni. Hefyd siaradom gydag aelodau staff;
- edrychom ar ystod eang o ddogfennau, ffeiiau staff, polisïau a chofnodion, ffeiliau plant a chynlluniau gweithgareddau ac
- arolygwyd ymarferion a gweithdrefnau yn ystod yr arolwg gan gwblhau arsylwad SOFI2 ar grŵp o blant er mwyn casglu tystiolaeth ar ymgysylltiad plant a'r gofal a ddarperir gan staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person(au) Cofrestredig** | **Diane Campbell**<br>**Helen Singer** |
| **Person â Gofal** | **Diane Campbell**<br>**Ar y cyd gyda Cheryl Evans** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **21** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 4 oed** |
| **Oriau agor** | **9:00 – 12:00**<br>**Llun – Gwener (Tymor ysgol yn unig)** |
| **Prif iaith y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **16 Hydref 2015** |
| **Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn** | **22 Hydref 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nag ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?** | **Nag ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg?** | **Darperir Cynnig Gweithredol yr iaith Gymraeg** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |